Cymdeithas Amaethyddol
Frenhinol Cymru
Llanelwedd
Llanfair-ym-Muallt
Powys LD2 3SY

Royal Welsh
Agricultural Society
Llanelwedd
Builth Wells
Powys LD2 3SY

COD YMDDYGIAD YMWELWYR

Mae Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru yn edrych ymlaen at eich croesawu i'n digwyddiadau. Yn unol â chanllawiau cyffredinol y llywodraeth ar gyfer derbyn ymwelwyr i'r safle, mae'r Cod Ymddygiad Ymwelwyr hwn wedi'i gynllunio i'ch arwain a'ch cynghori am y protocolau sydd ar waith yn ystod y digwyddiad. Mae'r trefnwyr (CAFC) wedi cyflwyno amrywiaeth o weithdrefnau i sicrhau diogelwch pawb sy'n bresennol.

Fodd bynnag, mae'n hanfodol bwysig fod pawb yn chwarae eu rhan i sicrhau bod y digwyddiad yn ddiogel ac yn bleserus. Mae angen eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad parhaus arnom i gyflawni hyn. Felly, carwn atgoffa ymwelwyr yn garedig i gadw at y Cod hwn, dilyn yr holl ofynion diogelwch, cynorthwyo staff a stiwardiaid, a helpu i'w cadw nhw eu hunain a phawb arall sy'n bresennol, yn ddiogel.

- Rhaid i ymwelwyr gydymffurfio ag amodau a thelerau tocynnau'r Gymdeithas, a amlinellir yn llawn ar y wefan ar gyfer tocynnau.
- Cynlluniwch eich taith ymlaen llaw a chyrraedd Maes y Sioe mewn da bryd. Teithiwch yn ddiogel a chadwch ar flaen y wybodaeth ddiweddaraf am deithio'n ddiogel, rhannu ceir, a thrafnidiaeth gyhoeddus.
- Pan fyddwch chi yn y digwyddiad, dilynwch yr holl arwyddion gwybodaeth a chyfeiriadol a chydymffurfiwch ag unrhyw gyfarwyddiadau a geir gan staff a stiwardiaid neu dros y system sain. Mewn argyfwng, mae hyn yn sicrhau eich bod yn cyrraedd man diogel yn effeithlon.
- Dim ond defnydd sgwteri symudedd a chadeiriau olwyn sy'n cael eu caniatáu ar y safle ar gyfer anghenion hygyrchedd. Ni chaniateir defnyddio beiciau, beiciau trydan, sgwteri, sgwteri trydan, esgidiau rholio nac unrhyw fath arall o gludiant yn ystod y digwyddiad.
- Yn ystod Sioe Frenhinol Cymru, dim ond mewn rhai gatiau penodol y gallwch dalu gydag arian parod. **Nid** yw hyn yn wir am y Ffair Aeaf, lle gall unrhyw giât dderbyn arian parod. E-docynnau sydd orau, er mwyn sicrhau mynediad cyflymach.
- Mae ein stiwardiaid a'n timau diogelwch yn bresennol i'ch cadw'n ddiogel. Os ydych chi'n sylwi ar ormodedd o bobl neu bryderon diogelwch eraill, rhowch wybod i stiward.
- **Ni** chewch gario diodydd alcoholig o amgylch y safle nac yfed mewn mannau cyhoeddus, ac eithrio mewn bariau dynodedig.
- **Ni** chaniateir ysmygu na fêpio mewn unrhyw fannau cyhoeddus caeedig neu rannol-gaeedig, gan gynnwys adeiladau da byw.
- Byddwch yn barod am newid yn y tywydd neu dywydd eithafol. Gwiriwch ragolygon y tywydd a dewch â dillad glaw addas, dillad cynnes, hetiau, eli haul, a photeli dŵr er mwyn mwynhau'r digwyddiad ym mhob tywydd.
- Efallai y bydd arwynebau anwastad oddi ar y prif lwybrau cerdded; cadwch at y llwybrau lle bo modd.
- Pan fyddwch yn defnyddio'r toiledau, byddwch yn amyneddgar ac ystyriwch eraill er mwyn osgoi cael gormodedd o bobl mewn un man.

- Cofiwch hylendid dwylo da. Golchwch eich dwylo cyn bwyta ac ar ôl cyffwrdd ag anifeiliaid, a pheidiwch â chyffwrdd â'ch wyneb, dolenni a ffensys. Rhowch wybod i aelod o staff am unrhyw broblemau gyda hylif diheintio neu gyfleusterau golchi dwylo.
- Yn yr Eisteddle, arhoswch nes bod llwybrau cerdded yn glir a dilynwch gyfarwyddiadau'r stiwardiaid wrth symud.
- Mewn mannau gorlawn neu dan do, cadwch bellter parchus oddi wrth ymwelwyr eraill.
- Bydd sylw gan y cyfryngau ac ar gyfer marchnata yn barhaus yn ystod y digwyddiad, sy'n golygu y gall ffotograffau a fideo gynnwys unrhyw un sy'n bresennol. Os **nad** ydych chi neu unrhyw un yn eich grŵp eisiau bod yn y ffotograffau neu gael eich ffilmio, cysylltwch â'r tîm Marchnata a Chyfathrebu yn requests@rwas.co.uk.
- Os ydych chi'n dod gydag aelodau o'r teulu neu ffrindiau, gwnewch yn siŵr eu bod wedi darllen y Cod Ymddygiad Ymwelwyr hwn a'i ddeall.
- Bydd bagiau'n cael eu chwilio; bydd gwrthod cydymffurfio yn golygu na chaniateir mynediad. Bydd unrhyw gyllyll neu wrthrychau miniog eraill a ddarganfyddir yn cael eu hatafaelu. Peidiwch â dod â'r eitemau hyn gyda chi os gwelwch yn dda.
- Mae'r Gymdeithas yn cadw'r hawl i wahardd unrhyw ymwelydd sy'n methu â chydymffurfio â'r Cod hwn neu sy'n ymddwyn mewn ffordd wrthgymdeithasol.
- Mae'r Gymdeithas yn gwrthod mynediad i unrhyw droseddwr rhyw cofrestredig neu unrhyw un sy'n destun gorchymyn atal niwed rhywiol.
- Mae'r Gymdeithas yn gwrthod mynediad i unrhyw un sydd â chyffuriau neu sylweddau anghyfreithlon yn eu meddiant; os cânt eu darganfod, bydd yr unigolyn(ion) yn gorfod gadael y digwyddiad.

Mae Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru yn cymryd diogelwch a diogeledd y cyhoedd o ddifrif ac mae'n gweithio ar y cyd â Protect UK: https://www.protectuk.police.uk.

Diolch am eich cefnogaeth, ac edrychwn ymlaen at eich croesawu.